CFfG/2021/ 3ydd Cyfarfod

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 9 Mawrth 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams (roedd y Dirprwy Gadeirydd ac aelodau Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn swyddfeydd y Comisiwn yn Nhŷ Hastings).

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Aaron Sollis | Asesydd (Arolwg Ordnans) |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Huw Blacker | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Josh Lovell | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Cher Cooke | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**Amser Dechrau:** 16:30
**Amser Gorffen:** 19:10

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. Cyflwyno Cynlluniau ar gyfer Cynigion Cychwynnol

3.1. Bu’r Comisiwn yn ystyried cyflwyniadau ar naw cynllun a roddwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn.

3.2. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 1 a oedd yn seiliedig ar Gadw Cymoedd De Cymru.

3.3. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 2 a oedd yn canolbwyntio ar Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.

3.4. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 3 a oedd yn seiliedig ar gadw cyfanrwydd dinasoedd.

3.5. Daeth y Dirprwy Gadeirydd â’r Cyfarfod i ben am 19:10.

3.6. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 16:30 ddydd Iau 11 Mawrth 2021.

3.7. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 4 a oedd yn seiliedig ar gadw etholaethau presennol Gogledd Cymru.

3.8. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 5 a oedd yn seiliedig ar ddarparu trefniant nad yw’n cynnwys mwy na dwy etholaeth bresennol.

3.9. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 6 a oedd yn seiliedig ar ddarparu trefniant nad yw’n cynnwys mwy na dau Awdurdod Lleol.

3.10. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 7 a oedd yn seiliedig ar gadw etholaeth bresennol Bro Morgannwg.

3.11. Daeth y Dirprwy Gadeirydd â’r cyfarfod i ben am 18:20.

3.12. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 16:30 ddydd Mawrth 16 Mawrth 2021.

3.13. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 8 a oedd yn gynllun cyfun gan yr Ysgrifenyddiaeth gyda Sir Fynwy fel man cychwyn.

3.14. Bu’r Comisiwn yn ystyried Cynllun 9 a oedd yn gynllun cyfun gan yr Ysgrifenyddiaeth gydag Ynys Môn fel man cychwyn.

3.15. Daeth y Dirprwy Gadeirydd â’r cyfarfod i ben am 18:10 ddydd Mawrth 16 Mawrth 2021.

3.16. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod am 16:30 ddydd Iau 18 Mawrth 2021.

3.17. Bu’r Comisiwn yn ailystyried etholaethau arfaethedig Gogledd Cymru o gynllun 3 a chynllun 10.

3.18. Ar ôl ystyried a thrafod, **cytunodd** y Comisiwn i gymeradwyo Cynllun 10 fel y Cynllun ar gyfer y Cynigion Cychwynnol a fydd yn cael ei nodi gan y Comisiwn yn ei Adroddiad ar y Cynigion Cychwynnol.

3.19. Bu’r Comisiwn yn ystyried yr enwau ar gyfer yr etholaethau newydd arfaethedig a chytunodd ar enw ac enw amgen yn yr iaith arall ar gyfer pob etholaeth lle bo hynny’n briodol.

## 4. UNRHYW FUSNES ARALL

4.1. Cytunodd y Comisiynwyr y byddant yn anfon unrhyw sylwadau ar Fraslun Drafft yr Adroddiad ar y Cynigion at yr Ysgrifenyddiaeth erbyn 13 Ebrill, a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Cychwynnol ar gyfer cyfarfod mis Ebrill.

4.2. **Cytunwyd** mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

4.3. Daeth y Dirprwy Gadeirydd â'r cyfarfod i ben am 17:40 ddydd Iau 18 Mawrth 2021.